

Atodiad B - FFRAMWAITH LEFELAU NIWED

Bwriedir i'r enghreifftiau a restrir fod yn ganllaw yn unig ac nid yn rhestr gyflawn.

Lefel y niwed	Digwyddiadau <u>na fyddent</u> yn tanio'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd
Dim	<p>Unrhyw ddigwyddiad diogelwch cleifion a allai fod wedi achosi niwed ond na arweiniodd at unrhyw niwed.</p> <p>e.e.: Oedi gydag apwyntiad, ond dim sgil-ffaith o ran iechyd.</p> <p>e.e.: Claf yn syrthio – lle na ddioddefodd niwed neu lle nad oedd angen ymyriadau ychwanegol.</p> <p>e.e.: Achos y bu ond y dim iddo ddigwydd – wedi sylwi ar y potensial am niwed a chymerwyd camau i osgoi'r niwed.</p>
Niwed isel/ychydig o niwed	<p>Unrhyw ddigwyddiad ynghylch diogelwch y claf a arweiniodd at gynnydd bach mewn triniaeth ac a achosodd fân niwed i un neu ragor o bobl a oedd yn derbyn gofal a gyllidir gan y GIG.</p> <p>Gallai ychydig o gynnydd mewn triniaeth gynnwys:</p> <p>e.e.: Cymorth cyntaf, therapi ychwanegol, meddyginiaeth neu adsefydlu</p> <p>e.e.: Claf yn syrthio – rhaid arsylwi arno unwaith a/neu fân driniaeth</p> <p>e.e.: Cynyddu arhosiad 1 - 3 diwrnod.</p>
	<p>Pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol?</p> <p>PWYSIG- mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r ddyletswydd gonestrwydd fod yn gymwys. Rhaid gweithio drwy'r rhain wrth gymhwyso'r fframwaith niwed.¹</p> <p>Mae'r ddyletswydd yn cael ei thanio mewn cysylltiad â chorff GIG os yw'n ymddangos i'r corff bod y ddau amod canlynol yn cael eu bodloni:</p> <ol style="list-style-type: none"> (1) Yr amod cyntaf yw bod yr un (y "defnyddiwr gwasanaeth") y mae'r corff yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol. (2) Yr ail amod yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

¹ I gael rhagor o arweiniad ar benderfynu a yw'r ddyletswydd yn berthnasol, edrychwch ar Atodiad A ac Atodiad H a rhan 4, tudalen 7 y Canllawiau.

	<p>Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath.</p> <p>Mae modd tanio'r ddyletswydd oherwydd cam penodol a gymerwyd gan gorff GIG wrth ddarparu gofal iechyd neu oherwydd ei fod wedi methu cymryd cam penodol.</p> <p>Nid yw'r ddyletswydd yn cael ei thanio pan fydd y niwed yn gysylltiedig â chwrs naturiol salwch neu gyflwr isorweddol y defnyddiwr gwasanaeth.</p>
Niwed cymedrol annisgwyl neu anfwriadol	<p>Mae enghreifftiau o lefelau annisgwyl neu anfwriadol o niwed cymedrol a mathau o ddigwyddiadau a <u>fyddai'n</u> sbarduno'r weithdrefn dyletswydd i fod yn ddiwyll yn cynnwys:</p> <p>Niwed cymedrol –</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cynnydd cymedrol mewn triniaeth a (b) Niwed sylweddol ond nid parhaol. <p>Gallai cynnydd cymedrol mewn triniaeth gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn/aiddderbyn heb ei gynllunio, • Dychwelyd yn annisgwyl i'r feddygfa, • Cynyddu arhosiad rhwng 4 a 15 diwrnod, • Canslo/gohirio triniaeth, • Trosglwyddo i ardal triniaeth/gofal arall - er enghraifft, gofal eilaidd neu ofal dwys o ganlyniad i'r digwyddiad. <p>Mae enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n tanio'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad – derbyn heb ei gynllunio.</p> <p>Gwelwyd y claf gan aelod o'r tîm Iechyd Meddwl cymunedol; sy'n methu â chydabod neu weithredu ar dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â meddyginiaeth/methu â glynu wrth sesiynau triniaeth/mynegi meddyliau hunanladdol.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad - y claf yn niweidio ei hun, gan achosi niwed cymedrol sy'n golygu bod angen ei dderbyn i'r ysbyty.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Llawdriniaeth wedi ei chanslo.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at ddirywiad ac arhosiad hirach yn yr ysbyty am hyd at 4 diwrnod ac oedi o ran adferiad.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Claf yn derbyn opioidau er bod hyn yn cael ei gofnodi fel alergedd.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at y claf yn dioddef adwaith sylweddol a bod angen triniaeth frys.</p>

	<p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Cafodd mam waedlif sylweddol ar ôl genedigaeth anodd, a bu oedi cyn cael gwaed ar gyfer trallwysiad.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at drosglwyddo'r fam i'r uned ddibyniaeth uchel o ganlyniad i'r gwaedlif ôl-enedigol a'r oedi wrth gael gwaed ar gyfer y trallwysiad, gan olygu bod ei chyfnod o wella wedi para'n hir.</p> <p>Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi niwed seicolegol:</p> <p>Niwed seicolegol – yn golygu cyflwr seiciatrig neu waethygu cyflwr seiciatrig presennol am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf.</p> <p>DS: Dylid defnyddio'r amserlen uchod fel mesur yn unig. Rhaid canolbwyntio ar lefel y niwed anfwriadol neu annisgwyl.</p> <p><u>Mae rhagor o enghreifftiau manwl o astudiaethau achos ar gael yn Atodiad H.</u></p>
<p>Niwed difrifol annisgwyl neu anfwriadol</p>	<p>Mae enghreifftiau o lefelau annisgwyl neu anfwriadol o niwed difrifol a mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:</p> <p>Byddai niwed difrifol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nam neu niwed parhaol i iechyd neu niwed sy'n arwain at analluogrwydd, anabledd neu golli potensial i wella. • Lleihau gweithrediad corffol, synhwyrdd, echddygol, ffisiolegol neu ddeallusol yn barhaol y gellir ei osgoi, gan gynnwys tynnu'r aelod neu'r organ anghywir neu niwed i'r ymennydd. • Cynyddu arhosiad >15 diwrnod <p>Mae enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n tanio'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad – y posibilrwydd o golli adferiad. Oedi gyda thriniaeth thrombolytig neu AHP.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – gan arwain at golli'r gallu i gerdded neu siarad, sy'n barhaol.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Mae'r claf yn dioddef adwaith niweidiol i feddyginiaeth y cofnodwyd ei fod yn cael adwaith alergaidd iddo.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at y claf yn dioddef niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i organ.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad – Claf yn dioddef trydylliad o'r coluddyn yn ystod llawdriniaeth.</p>

	<p>Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at glaf yn gorfod cael colostomi a/neu lawdriniaethau dilynol.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Ni chafodd y claf belydr-x dilynol wedi ei gynllunio.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Canfuwyd wedyn bod gan y claf ganser yr ysgyfaint. Roedd y siawns o oroesi wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r oedi o 18 mis cyn cynnal y pelydr-x dilynol.</p> <p><u>Mae rhagor o enghreifftiau manwl o astudiaethau achos ar gael yn Atodiad H.</u></p>
<p>Marwolaeth annisgwyl neu anfwriadol</p>	<p>Mae enghreifftiau o farwolaethau annisgwyl neu anfwriadol a mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:</p> <p>Mae enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n tanio'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad – Y math anghywir o waed yn cael ei drallwys.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad - Yn arwain at fethiant aml-organ ac ataliad angheuol ar y galon.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Mae'r claf yn dioddef adwaith niweidiol i feddyginiaeth y cofnodwyd ei fod yn cael adwaith alergaidd iddo.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad - Yn arwain at anaffylacsis difrifol a marwolaeth ddilynol.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Claf yn dweud bod ganddo boenau yn y frest a gofynnir iddo aros mewn clinig/practis/adran achosion brys.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad – Mae'r claf yn dioddef cnawdnychiant myocardiaidd angheuol wrth aros, ac mae'n marw wedyn.</p> <p><u>Mae rhagor o enghreifftiau manwl o astudiaethau achos ar gael yn Atodiad H.</u></p>